CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

554/51

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 4

## Cyflwyniad i'r Testament Newydd

P.M. DYDD IAU, 8 Mehefin 2006

(1 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

Caniateir defnyddio Beibl, a all gynnwys yr Apocryffa.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **Gwestiwn 1** ac **un** cwestiwn arall.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 20 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall*.

**1.**

> Yn ôl awduron yr efengylau, roedd Iesu'n aml yn dysgu mewn damhegion. Nid yw ystyr y damhegion hyn bob amser yn glir. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n ymdrechu i'w deall maent yn egluro rhai o nodweddion teyrnas Dduw, neu ryw wirionedd arall.

*(a)* Eglurwch ddibenion *(purposes)* damhegion yn y Testament Newydd. [10]

*(b)* Archwiliwch ystyr unrhyw **ddwy** o ddamhegion Iesu. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch sut mae gwahanol awduron yr efengylau yn ceisio dangos mai Iesu oedd ymgnawdoliad Duw. [10]

*(b)* 'Mae awduron yr efengylau yn ei gwneud hi'n anoddach i gredu yn Iesu wrth honni ei fod yn ddwyfol.'
Aseswch y datganiad hwn. [10]

**3.** *(a)* Amlinellwch y digwyddiadau y mae'n rhaid iddynt ddigwydd cyn ail ddyfodiad Crist, yn ôl y rhannau o'r Testament Newydd a astudiwyd gennych. [10]

*(b)* 'Ni fydd ail ddyfodiad Crist.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]